Cwestiynau Cyffredin

Gair am Gynlluniau Uwchraddio Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Rhostir Cog

Beth yw Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Rhostir Cog?

Gwaith trin dŵr gwastraff, a agorwyd gyntaf yn yr 1990au, i drin dŵr gwastraff trigolion Dinas Powys, Sili, Penarth, y Barri a gorllewin Caerdydd yw gwaith Rhostir Cog. Mae ar yr A4055 rhwng y Barri a Dinas Powys.

Beth mae Dŵr Cymru yn ei wneud yn Rhostir Cog?

Mae Dŵr Cymru'n buddsoddi **dros £50 miliwn** er mwyn gosod offer Treulio Anaerobig Datblygedig (AAD) fel rhan o'n cynlluniau i uwchraddio'r gwaith trin.

Pam y mae Dŵr Cymru'n adeiladu gwaith AAD yn Rhostir Cog?

Mae Dŵr Cymru'n defnyddio mwy o ynni na bron unrhyw gorff arall yng Nghymru wrth weithredu a chynnal rhwydwaith o brif bibellau dŵr, carthffosydd, gweithfeydd trin carthion a chronfeydd dŵr. Gan fod ein bil ynni blynyddol yn £44 miliwn, rydym wedi bod yn edrych ar ffyrdd o gynhyrchu trydan ar ein safleoedd a gostwng ein costau.

Ein nod yw cynhyrchu 30% o'r ynni y mae arnom ei angen erbyn 2020 a dod yn fusnes ynni-niwtral erbyn 2050 trwy fuddsoddi mwy mewn AAD, ynni'r haul, ynni dŵr, ynni gwynt a thechnolegau adnewyddadwy eraill.

Yn ogystal, bydd safle AAD Rhostir Cog yn helpu Dŵr Cymru i gyrraedd ei nod o ran ynni adnewyddadwy, sef cynhyrchu 100GWh o drydan erbyn 2020.

Beth mae offer AAD yn ei wneud?

Mae gwaith AAD yn gynllun gwres a phŵer cyfunedig sy'n cynhyrchu bio-nwy wrth i slwtsh carthion a gesglir o'r gwastraff yn ein system garthion yn yr ardal gael ei dreulio mewn modd anaerobig. Caiff ei gynhesu mewn tanciau enfawr gan ein helpu i greu bio-nwy. Symudir y bio-nwy i injans nwy er mwyn cynhyrchu trydan a ddefnyddir i bweru'r gwaith AAD.

Mae'r slwtsh sydd dros ben, sef deunydd biosolid a elwir yn "cêc", yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio i wella pridd mewn ffordd gynaliadwy sy'n fwy eco-gyfeillgar na gwrtaith cemegol.

Beth yw mantais y gwaith AAD i Dŵr Cymru?

Bydd y gwaith AAD newydd yn cynhyrchu 2.028MWh o drydan y flwyddyn a fydd yn pweru'r gwaith AAD ac yn gwneud gwaith trin dŵr gwastraff Rhostir Cog yn safle hunangynhaliol a charbon niwtral. A ninnau'n sefydliad nid-er-elw, bydd hynny'n golygu y gallwn ailfuddsoddi mwy er mwyn cadw biliau cwsmeriaid yn isel ac uwchraddio'r asedau yn ein meysydd gweithredu.

Beth yw mantais y gwaith AAD i'r cyhoedd?

Mae'r gwaith AAD yn ffordd fwy effeithlon ac ecogyfeillgar o drin dŵr gwastraff ein cwsmeriaid ym Mro Morgannwg. Bydd y gwaith yn helpu Dŵr Cymru i reoli effeithiau newid yn yr hinsadd, yn lleihau ein costau rhedeg a'n hôl troed carbon ac yn helpu i gadw biliau cwsmeriaid yn isel.

<u>Yn ystod y Cyfnod Adeiladu</u>

Pa mor hir fydd y cyfnod adeiladu?

Dechreuwyd adeiladu'r gwaith AAD newydd ym mis Medi 2018 a bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Tachwedd 2020. Wedyn, bydd angen cynnal profion terfynol cyn i'r gwaith ddechrau gweithredu'n llawn erbyn mis Mawrth 2021.

Pa brofion a wneir ar y gwaith AAD?

Mae angen i ni gynnal profion ar bob cam o waith y safle AAD er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn bodloni gofynion amgylcheddol llym.

Fel rhan o'r broses brofi, byddwn yn danfon slwtsh yno ac yn ei gynhesu mewn tanciau enfawr. Yna, byddwn yn rhoi prawf ar bob cam o'r broses AAD i greu bio-nwy, cyn rhoi prawf ar allu ein injans nwy i greu trydan a ddefnyddir ar y safle.

Pan fyddwn wedi'n bodloni bod y gwaith AAD yn gweithio'n ddiogel ac yn effeithlon, bydd y safle'n dechrau gweithio'n llawn.

Beth fydd Dŵr Cymru'n ei wneud i gefnogi'r gymuned yn ystod y gwaith adeiladu?

Byddwn yn cadw mewn cysylltiad â'r gymuned trwy ysgrifennu cylchlythyrau rheolaidd i sôn am y gwaith sydd wedi'i wneud ac y bwriedir ei wneud ar y safle a thrwy bostio ar y cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyfryngau lleol am unrhyw gerrig milltir trwy ddatganiadau i'r wasg. Bydd Dŵr Cymru yn mynd i wahanol ddigwyddiadau yn yr ardal os oes modd, i hyrwyddo'r cynllun.

Llinell Amser y Prosiect

Awst 2019

- Dechrau adnewyddu'r treulyddion concrit presennol a gosod y treulyddion newydd.

Medi 2019 – Mehefin 2020

- Danfon a gosod yr offer AAD

Hydref 2020

- Dechrau comisiynu'r gwaith AAD newydd.

Tachwedd 2020

- Gorffen adeiladu'r gwaith AAD newydd.

Chwefror 2021

Gorffen y profion ar y gwaith AAD newydd. Ar ôl cwblhau'r profion, bydd y gwaith AAD newydd yn dechrau gweithredu'n llawn.

Ar ôl y Cyfnod Adeiladu

Pan fydd y safle'n gweithredu, a fydd mwy o gerbydau'n mynd a dod i safle Rhostir Cog?

Pan fydd y safle'n gweithredu, bydd llai o gerbydau'n mynd a dod i'r safle ond ni fydd hyn yn effeithio ar y ffyrdd ger y safle.

A fydd mwy o sŵn pan fydd y safle'n gweithredu?

Nid ydym yn disgwyl y bydd mwy o sŵn pan fydd popeth yn gweithio. Mae'r safle wedi'i gynllunio i gadw o dan lefel benodol o sŵn rhag iddo effeithio gormod ar y gymuned. Yn ystod y broses gomisiynu, byddwn yn monitro'r sŵn i weld a fydd angen i ni gymryd rhagor o gamau i leihau'r sŵn yn y dyfodol.

A fydd llygredd aer o'r AAD yn amharu ar yr amgylchedd neu ar iechyd pobl?

Cyhoeddwyd adroddiad ansawdd aer wedi'i seilio ar yr offer newydd a daeth i'r casgliad na fyddai'n amharu ar bobl na chynefinoedd o gwmpas y safle.

A fydd y gwaith AAD yn cael effaith weledol?

Ni fydd y gwaith AAD i'w weld o'r A4055 ac rydym wedi trefnu i blannu coed a chymryd camau eraill i sicrhau na fydd y gwaith AAD na'r stac yn amharu ar olygfa'r rhai sy'n edrych dros y safle. Dim ond o ychydig o dyddynnod a ffermydd y gellir gweld safle Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Rhostir Cog. Bydd modd gweld y gwaith presennol o hyd o'r tai hynny ond bydd yr offer newydd yr un uchder â'r treulyddion sydd ar y safle ar hyn o bryd.

Beth fydd yn digwydd i Ganolfan Addysg Rhostir Cog?

Bu Canolfan Addysg gan Dŵr Cymru yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Rhostir Cog ers 2003. Bu'n rhaid i ni gau'r ganolfan addysg am gyfnod er mwyn adeiladu'r gwaith AAD ac mae plant ysgol yr ardal wedi bod yn mynd i'n Canolfan Ddarganfod yng Nghilfynydd yn lle hynny. Ein nod yw ailagor Canolfan Addysg Rhostir Cog yn 2021.

Fel rhan o'r cynllun uwchraddio, bu Dŵr Cymru'n ymweld ag ysgolion cynradd yn yr ardal, yn gorfforol ac yn ddigidol, i ddysgu'r plant am ddŵr ac am ein gwaith.